Cyflwyniad Cynhadledd Llandrindod 30.4.09 –Huw Jones

Dwi yma heddiw fel aelod o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a'r hyn dwi am geisio ei wneud ydi cyflwyno rhai sylwadau ynglŷn a'r berthynas rhwng maes diddordeb y corff hwnnw a'r cwestiynau sy'n ymwneud a darpariaeth addysg a hyfforddiant dwyieithog a chyfrwng Cymraeg.

Ga' i nodi mai canfyddiadau personol ydi'r sylwadau yma ar hyn o bryd, gan nad oes yna drafod ffurfiol wedi bod hyd yma o fewn y Bwrdd ynglyn â materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg. Mi f'aswn i'n gobeithio fod y sylwadau yma'n gyson â safbwynt cyffredinol y Bwrdd.

Mae'n gorff sy'n llai na blwydd oed. Mae'n Fwrdd ymgynghorol – hynny yw, does ganddo ddim pwerau gweithredu. Mae ganddo 13 o aelodau – sydd wedi eu tynnu'n bennaf o blith cyflogwyr amrywiol, ond hefyd yn cynnwys darparwyr addysg a rhai sydd a chysylltiad amlwg a maes hyfforddiant.

Mi ddyfynna i rai o bwyntiau Cylch Gorchwyl y Bwrdd:

1) Rhoi cyngor i Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad ..ar yr hyn sy'n cael ei wneud yng Nghymru i gyrraedd y targedau lefel uchel ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru.
2) Cyfrannu at ddatblygu strategaethau a chynlluniau gweithredu mewn perthynas â sgiliau a chyflogaeth ar gyfer y dyfodol yng Nghymru, a monitro'r broses o'u rhoi ar waith;
3) Cynnig cyngor am safbwyntiau a blaenoriaethau cyflogwyr yng Nghymru mewn perthynas â sgiliau, cyflogaeth a chefnogaeth i ddatblygu busnesau;
5) Rhoi cyngor ar y blaenoriaethau o ran sgiliau a chyflogaeth…gan ystyried anghenion a gofynion rhannau gwahanol o Gymru..
6) Rhoi cyngor ar ddigonolrwydd a phriodoldeb y cyflenwad sgiliau – gan gynnwys sgiliau Iaith Gymraeg – ar gyfer yr economi presennol ac yn y dyfodol;
8) Ystyried swyddogaeth a phwysigrwydd y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru, ;
9) Rhoi cyngor ar sut i wella systemau sgiliau a chyflogaeth o safbwynt dysgwyr unigol, pobl cyflogedig, pobl economaidd anweithgar a gweithlu'r dyfodol

Prif offeryn dylanwad y Bwrdd ydi'r ffaith ei fod yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn crynhoi ei sylwadau ar y meysydd hyn. Mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i ystyried sylwadau'r Bwrdd yn ofalus. Fel mae'n digwydd, mae'r adroddiad cyntaf yn dod allan yr wythnos nesaf. Mae'n werth nodi hefyd fod Cadeirydd y Bwrdd, SyrAdrian Webb, yn aelod o 'r Comisiwn Prydeinig – yr UKCES – sydd â'r swyddogaeth weithredol o ail-drwyddedu'r Cynghorau Sgiliau Sector, ac mae'r gwaith hwnnw'n mynd yn ei flaen ar hyn o bryd.

Tydi hi ddim yn gyfrinach mai un o amcanion y Llywodraeth wrth greu'r Bwrdd oedd ceisio sicrhau fod safbwynt cyflogwyr, mewn perthynas â pholisïau sy'n cefnogi busnes a datblygu sgiliau yn cael ei glywed a bod y perspectif hwnnw'n cael mwy o ddylanwad nag yn y gorffennol ar natur y ddarpariaeth ym maes addysg alwedigaethol a hyfforddiant.

Un enghraifft o'r ffordd y mae'r Bwrdd wedi ceisio cyflawni ei rôl yn ystod misoedd cyntaf ei fodolaeth (ac o'r ffordd mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei gymell i wneud hynny) – ydi trwy edrych ymlaen llaw ar rai o syniadau'r Llywodraeth ynglŷn â dulliau ariannu hyfforddiant ac addysg ôl-19, gan gynnwys ariannu addysg bellach. Roedd y gwaith yma'n cynnwys gwahodd nifer o gyflogwyr i drafod rhai o'r awgrymiadau, gyda phwyslais ar geisio sicrhau fod y system ariannu yn rhoi symbyliad penodol i ddarparwyr lunio'u darpariaeth fel ei fod yn cyfarfod â'r gofynion y byddai cyflogwyr a chynrychiolwyr cyflogwyr – megis y Cynghorau Sgiliau Sector – yn eu hadnabod.

Mae na gysylltiad gweddol amlwg rhwng y symudiad a'r pwyslais yma a themau'r Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Mesur Dysgu a Sgiliau a fydd yn eu hyrwyddo . Awydd amlwg y Llywodraeth onide yw creu cysylltiad agosach rhwng ffrwyth cyfnod addysg ag anghenion byd gwaith. Yn hyn o beth mae yna her i gefnogwyr addysg Gymraeg a dwyieithog traddodiadol.

Hyd yma, mae'r pwyslais wrth ddatblygu addysg Gymraeg a dwyieithog wedi bod ar gyfarfod â galw rhieni a myfyrwyr. Fydd hynny wrth gwrs ddim yn peidio â bod fel grym dylanwadol, ond mae cydnabod, mewn ffordd agored a ffurfiol hawl cyflogwyr i gael dylanwad ar y ddarpariaeth yn cynrychioli newid pwysig na ddylai unrhyw un sydd am weld addysg Gymraeg yn ffynnu ei anwybyddu.

Fe fydd Gari Lewis o Fwrdd yr Iaith yn sôn y pnawn ma am her benodol y Llwybrau Dysgu 14-19 a dydw i ddim yn mynd i ddweud nad oes yna botensial ar gyfer gwrthdaro rhwng yr hyn sy'n cael ei weld fel amodau delfrydol ar gyfer addysg alwedigaethol a'r hyn sy'n ddelfrydol ar gyfer meithrin rhuglder yn y Gymraeg. Ond yn yr amser sy gen i fe hoffwn i ganolbwyntio ar y cyfleodd i hyrwyddo addysg Gymraeg a dwyieithog sydd ynghlwm yn y drefn newydd.

Yn syml, y neges yw - os y gellir dangos fod yna alw gan gyflogwyr - yn y sector gyhoeddus, y sector breifat a'r sector wirfoddol - am weithlu sydd yn medru siarad, neu ddeall neu ysgrifennu Cymraeg, neu sy'n medru ymwneud â phynciau penodol trwy gyfrwng y Gymraeg, yna fe fydd yna bwysau ychwanegol ar gael i sicrhau bod y sgiliau yna'n cael eu darparu a bod cyllid ar gael ar gyfer hynny.

Wrth gwrs, un peth ydi dweud bod angen i ddarparwyr hyfforddiant ac addysg gyfarfod â gofynion cyflogwyr. Peth arall ydi adnabod a diffinio'r gofynion hynny'n gywir ac effeithiol. Ar y cyfan, mae cyflogwyr yn dda iawn am adnabod gofynion sgiliau tymor byr eu cwmniau eu hunain, ond falle'n llai galluog i adnabod gofynion sgiliau sector ddiwydiannol yn ei chyfanrwydd – y rhai sydd eu hangen ar gwmniau o faint gwahanol neu rai sy'n gweithredu mewn rhan arall o'r wlad, neu'n ymwneud â'r dyfodol pell . Ac mae 'na rai sgiliau sy'n gallu bod yn berthnasol a gwerthfawr mewn mwy nag un sector - ac felly'n fwy deniadol o bosib i unigolion na sgiliau mwy cyfyngedig sy'n berthnasol i un cyflogwr yn unig. Dyma pam nad cyflogwyr unigol yn unig o anghenraid sy'n gymwys i ddiffinio beth yw gofynion sgiliau'r dyfodol a pham fod y Cynghorau Sgiliau Sector wedi eu sefydlu i geisio siarad ar ran sectorau cyfan. Eu tasg nhw ydi tynnu ar

wybodaeth mae nhw yn ei gasglu oddiwrth ystod eang o gyflogwyr yn eu sector ac ar wybodaeth ehangach hefyd - i adnabod y galw am sgiliau sector penodol ac hefyd am sgiliau sy'n gyffredin i'w diwydiant nhw a diwydiannau eraill, - er mwyn adnabod gofynion sgiliau'r dyfodol yn ogystal â rhai heddiw. Tydi hon ddim yn mynd i fod yn job hawdd. Un o gymhlethdodau'r dasg ydi fod y Cynghorau Sgiliau Sector yn weithredol ar draws y Deyrnas Gyfunol. Ac mae hynny'n golygu eu bod nhw i fod i ddarparu gwybodaeth a chyngor sydd yr un mor gywir a pherthnasol ar gyfer Cymru ag ar gyfer rhannau eraill o'r Deyrnas. A hynny'n aml pan nad oes ganddyn nhw ond un neu ddau o swyddogion yng Nghymru.

Os ydi'r dasg o ddiffinio gofynion sgiliau cyffredinol a phenodol y gweithle yn anodd, mae'r gwaith o leiaf wedi cychwyn.

Ond cyn belled ag y mae adnabod pa sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen gan gyflogwyr, ry'n ni dipyn go lew ar ei hôl hi. Yn ddiweddar iawn, roeddwn i'n darllen cynllun strategol un o'r Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru. Yn gyffredinol, roedd hi'n ddogfen ardderchog - yn nodi'r math o ymchwil oedden nhw'n ei wneud, y canfyddiadau, y math o gymwysterau roedden am eu gweld yn cael eu datblygu a'r math o sefydliadau addysg uwch roedden nhw am eu gweld yn ymddangos. Ond yr unig gyfeiriad at y Gymraeg oedd y ffaith bod ganddyn nhw fel sefydliad gynllun iaith Gymraeg a'u bod yn ymrwymo i weithredu hwnnw. Doedd hi ddim yn ymddangos fod y dasg o adnabod pa sgiliau iaith Gymraeg roedd cyflogwyr yn eu sector nhw yn debyg o'u gwerthfawrogi wedi cychwyn eto ac efallai hyd yn oed nad oedd yr angen i wneud hynny wedi ei gydnabod fel rhan o'u cylch gorchwyl.

Ac eto i gyd, wrth fynd i siarad â'r cyngor yma, roedd hi'n ddigon amlwg fod yna gydnabyddiaeth ei bod hi'n debyg fod yna alw am sgiliau Cymraeg yn y diwydiant yna a pharodrwydd i wynebu'r her o ddod o hyd i'r ateb.

Un broblem graidd wrth gwrs ydi – os nad ydi'r galw am sgiliau Cymraeg yn cael ei adnabod a'i ddiffinio mewn modd y gellir wedyn ei gyfieithu i hyfforddiant neu ddarpariaeth addysgiadol – yna fydd y galw yma ddim yn cael ei gydnabod a'i fesur yn gywir, a fydd y dylanwad ar y ddarpariaeth a'r drefn ariannu ddim yn digwydd fel y gallai.

Mae angen felly cymryd camau buan – ar draws pob sector o'r maes cyflogaeth – i adnabod y galw sydd yna, a'r galw a fydd yn y dyfodol, am sgiliau Cymraeg yn y gweithlu. Mae'n ymddangos i mi bod hon yn dasg sy'n disgyn ar ysgwyddau nifer o gyrff gwahanol ac bod angen i bob un gyflawni ei swyddogaeth briodol os yw'r gwaith i gael ei wneud yn effeithiol.

Mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn allweddol a dylai pob un ohonynt fod ag amcan diffiniedig yn eu cynllun busnes i fesur y galw am sgiliau Cymraeg.

Gall y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau, swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a'r Comisiwn Cyflogaeth a Sgiliau Prydeinig oll fod â rhan o'r gwaith - drwy fonitro i ba raddau y mae Cynghorau unigol yn gwneud hyn.

Gall Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector wneud gwaith pwysig wrth wneud yn siwr bod eu haelodau – y Cynghorau unigol – yn deall fod hyn yn rhan o'u cylch gorchwyl a thrwy rannu arfer da.

Gall cyflogwyr unigol ddiffinio eu gofynion drostynt eu hunain a bwydo rhain i mewn i'w Cynghorau Sgiliau. Wrth wneud hyn, mae gofyn i'r cyflogwyr sector gyhoeddus ofalu bod y gofynion sgiliau mae nhw'n eu nodi yn adlewyrchu'r ymrwymiadau mae nhw'n eu gwneud yn eu Cynlluniau iaith statudol mewn perthynas â darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y sectorau preifat a gwirfoddol, mae cyflogwyr a'u cynrychiolwyr yn aml yn dadlau mai cydweithio gwirfoddol yw'r ffordd orau o hyrwyddo'r iaith – nid gorfodaeth. Mae nifer o gwmnïau mawr wedi cymryd camau breision i'r cyfeiriad hwn a bellach mae yna gymorth ymarferol i'w gael gan Fwrdd yr Iaith i gwmniau preifat a mudiadau lunio Polisi Iaith gwirfoddol. Fe ddylai fod yn rhan annatod o'r Polisiau hynny i adnabod beth yw'r galw am sgiliau ieithyddol sy'n deillio ohonynt. Ymhlyg yn hynny, mae'n amlwg fod yna swyddogaeth i Fwrdd yr Iaith Gymraeg i roi arweiniad i gyflogwyr cyhoeddus a phreifat ynglŷn â goblygiadau sgiliau y cynlluniau sy'n cael eu cytuno, rhai statudol a gwirfoddol. Mi fydd cael templed cyffredin yn help mawr i hwyluso'r gwaith o ddiffinio'r beth yw'r galw ac o drosglwyddo'r wybodaeth i'r Cynghorau Sgiliau Sector perthnasol mewn modd fydd yn y pen draw yn creu bâs-data traws-sectorol dadlennol a defnyddiol.

Dydw i'n sôn dim heddiw am yr amrywiaeth eang o feysydd cyflogaeth lle y gall galw gael ei adnabod pan mae cyrff yn mynd ati o ddifri i adnabod y gofyn. Mae Sgiliau Cymru'r Dyfodol fwy nag unwaith wedi rhagweld cynnydd cyffredinol mewn galw gan gyflogwyr am sgiliau Cymraeg ac mae'r Cynulliad wedi nodi nifer o feysydd blaenoriaeth – Twristiaeth; Gofal; Mânwerthu a Gwasanaethau Cynghori Ariannol er enghraifft. Ond mae Sgiliau Cymru'r Dyfodol hefyd wedi nodi mai dim ond 2% o'r busnesau sydd wedi cydnabod yr angen am sgiliau Cymraeg sydd â dull ffurfiol o adnabod sgiliau eu staff a'u hanghenion hyfforddi iaith. "Mae'n ymddangos fod busnesau Cymreig yn edrych ar y gallu i siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg, nid fel sgil fel y cyfryw, ond yn fwy fel nodwedd sy'n digwydd yn naturiol. Mae'r adroddiad yn nodi'r canfyddiad yma fel rhwystr posibl i ddatblygiad pellach sgiliau iaith Gymraeg fel adnodd masnachol ac economaidd o fantais." (Welsh businesses seem to view the ability to speak, read or write Welsh not to be a skill as such, but more of a naturally occurring attribute. The report identifies this perception as a potential barrier to the further development of Welsh language skills as a commercially and economically advantageous tool".)

Rhan o'r broblem fan yma rwy'n tybio ydi nad oes gennym ni ddulliau priodol o gydnabod cymhlethdod y cwestiwn o sut mae diffinio sgiliau iaith Gymraeg yn ôl canfyddiad cyflogwr o'r galw amdanynt. Mi fyddai llawer cyflogwr yn fodlon dweud ei bod wrth gwrs yn ddymunol i gael rhywun sy'n siarad Cymraeg i lenwi rhyw swydd

benodol, ond o bosib na fyddai gan y cyflogwr (rhywun di-Gymraeg efallai) unrhyw syniad clir o be sydd ganddo dan sylw – y gwahaniaeth rhwng sgiliau deall, siarad a sgrifennu; y gwahaniaeth rhwng iaith syml a iaith dechnegol; y gwahaniaeth rhwng y gallu i siarad Cymraeg o ryw fath a pharodrwydd i'w defnyddio'n hyderus yn y gwaith.

Gorau po gyntaf felly y gallwn ddod o hyd i ffordd hwylus o fesur sgiliau ieithyddol mewn modd sy'n cydnabod nad pawb sy'n medru deall, siarad ac ysgrifennu'r iaith i'r un graddau ond y gall fod yna werth a defnydd yng nghyd-destun gwaith i bob un o'r rhain. Fy nheimlad personol ydi y byddai'r nifer o gyflogwyr fyddai'n nodi bod y Gymraeg yn sgil dymunol dipyn yn fwy pe bai modd diffinio'r sgil yn ehangach nag a ydi person wedi cael TGAU Cymraeg ai peidio. Ar yr un pryd, gan fod rhuglder a hyder go iawn yn yr iaith yn amlwg yn rhywbeth i anelu ato, byddai medru dangos bod rhywun sy'n derbyn addysg Gymraeg yn ddi-dor am gyfnod hir fel arfer yn datblygu sgiliau iaith tipyn mwy defnyddiol na rhywun sy'n rhoi'r gorau iddi'n gynnar, yn hwb i addysg cyfrwng Cymraeg ac yn creu mwy o alw amdano yn y cyfnod hŷn ac yn y maes galwedigaethol.

Dyna pam rydw i fy hun yn frwd iawn i weld cyflwyno dulliau o fesur ac achredu sgiliau iaith ar sail continwwm ieithyddol – dulliau sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng sgiliau Gwrando, Siarad, Darllen ac Ysgrifennu ac sy'n adlewyrchu cyraeddiadau gwahanol ym mhob un o'r rhain – tebyg i'r hyn sydd wedi ei ddatblygu yn yr "Ysgol Ieithoedd / y Languages Ladder" ar gyfer ieithoedd tramor gan yr Adran Addysg yn Lloegr. Mae'n well adlewyrchiad o realiti; mae'n rhoi modd i ddangos bod sgil rhywun sy'n medru siarad yr iaith ond nad yw'n academaidd yn sgil ychwanegol o wir werth; mae'n adlewyrchu'n fwy cywir yr amrywiaeth sgiliau iaith mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt; o'i lunio a'i ddilysu'n gywir, mae'n rhoi rhywbeth y gall cyflogwyr ei ddeall a gofyn amdano. Ac mae hyfforddiant sy'n cydnabod bod modd cynyddu sgiliau ieithyddol gam wrth gam, trwy gydol oes, a bod modd mesur y cynnydd hwnnw, hefyd yn llawer mwy cyson ag anghenion y gweithlu cyfoes, lle mae'r angen i fedru derbyn hyfforddiant o dro i dro, neu am gyfnod byr, tra'n parhau i weithio, yn gynyddol bwysig.

Ro'n i'n arbennig o falch felly i glywed fod yna gynllun gerbron Swyddfa Cyllido Cymru Ewrop ar hyn o bryd a fyddai'n creu offeryn hawdd ei ddefnyddio gan gyflogwyr i asesu'n gywir lefel y sgiliau iaith sydd ganddyn nhw o fewn y gweithlu a mesur y sgiliau y mae nhw eu hangen.. Bydd hefyd yn hwb anferth i rai sy'n gyflogedig neu sydd am fod yn gyflogedig, sy'n gwybod yn reddfol bod y sgiliau Cymraeg sydd ganddyn nhw'n ddefnyddiol ac yn fanteisiol, ond sy'n methu profi hynny i gyflogwyr a darpar-gyflogwyr. Dwi'n gobeithio'n fawr y bydd y cais yma'n llwyddiannus ac y daw'r offeryn yma ar gael cyn gynted â phosib.

Ar yr un pryd gall adnabod yr ystod eang o sgiliau ieithyddol sydd gan y boblogaeth yn gyffredinol fod yn fodd i ehangu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithle ei hun. Er enghraifft, gall cydnabod fod gan rywun y gallu i sgwennu Cymraeg naturiol heb o angenrheidrwydd fedru sgwennu jargon proffesiynol fod yn ffordd o sicrhau fod llythyrau Cymraeg syml yn cael eu sgwennu gan swyddogion yn hytrach na'u gyrru i ffwrdd i gyfieithydd. Un o beryglon mawr y Gymraeg yw iddi droi'n rhywbeth i'r Cymreigwyr proffesiynol yn unig. Ar y llaw arall, mi fyddwn i'n dadlau y dylai pob

arwydd parhaol sy'n cael ei godi gael ei checio gan rywun sy'n hollol saff o'i ramadeg er mwyn osgoi'r erchyllterau niferus sy'n gwneud dim lles i neb. “Horses for courses” ydi'r dywediad Saesneg defnyddiol - “Sgiliau priodol i'r galw” falle fyddai'r arwyddair. Ond mae dyfodol yr iaith Gymraeg yn dibynnu ar iddi gael ei defnyddio, yn eang, ym mhob sefyllfa bosib mewn bywyd a gwaith . Mae cydnabod amrywiaeth sgiliau iaith yn rhan o'r ehangu hynny.

Mae angen felly bwrw iddi ar fyrder i gyflawni’r dasg o adnabod y galw, gydag offer hwylus a phriodol wrth law. Y wobr o wneud hyn fydd sicrhau bod yr angen gwirioneddol sydd yna am sgiliau Cymraeg ar draws y gweithlu yn cael ei osod ochr yn ochr â’r galw am y sgiliau eraill sydd hefyd eu hangen ar weithlu’r dyfodol os ydi cwmnïau preifat Cymru i fod yn gystadleuol, os ydi’n gwasanaethau cyhoeddus ni'n mynd i roi gwasanaeth o’r safon uchaf ac os ydyn ni fel unigolion i sylweddoli’n potensial personol a byw bywydau cyflawn.